Adroddiad i'r	**Cabinet**
Dyddiad y cyfarfod	**26 Gorffennaf 2022**
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu:	**Y Cynghorydd Huw O Williams (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau)**
Awdur yr adroddiad	**Rhian Evans, Cydlynydd Craffu**
Teitl	**Adolygiad o Benderfyniad y Cabinet mewn perthynas â Chynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-Ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Casgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 15 Chwefror 2022 ynghylch 'Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-Ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybod i'r Cabinet am gasgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn adolygiad o'i benderfyniad ar 15 Chwefror 2022 ynghylch 'Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-Ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol'. Cwblhawyd yr adolygiad yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor wedi derbyn cais ffurfiol wedi'i lofnodi i adolygu'r penderfyniad.

2.2 Cyflwyno argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet yn dilyn ei adolygiad o'r penderfyniad ac annog y Cabinet i adolygu ei benderfyniad gwreiddiol gan gymryd canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu i ystyriaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn:

3.1 cydnabod casgliadau, pryderon ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 15 Chwefror 2022 ynghylch 'Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-Ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol'; a

3.2 cytuno i ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, gyda'r nod o gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer prynu tir, a cyn adolygu'r penderfyniad, bod y Cabinet yn:

(i) gweithio gyda'r Undebau Ffermio a'r Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc i geisio ymatebion cynhwysfawr gan y sefydliadau hynny ar y Cynllun Arfaethedig;

(ii) cytuno i newid geiriad y Cynllun Penderfyniadau Dirprwyedig arfaethedig (ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig) sy'n ymwneud â chysylltu ag aelodau lleol a Grwpiau Ardal Aelodau fel ei fod yn darllen: ymgynghori/ymgynghoriad yn hytrach na hysbysu/hysbysiad';

(iii) bod adolygiad yn cael ei gynnal ar yr adeg briodol o adnoddau staffio Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor i sicrhau bod ganddo gapasiti digonol i ymdrin â'r dyletswyddau ychwanegol a fydd yn disgyn ar y gwasanaeth yn y dyfodol o ran gwaith storio carbon a gwelliannau ecolegol; a

(iv) gofyn bod gwybodaeth fanwl ar raddio tir amaethyddol yn Sir Ddinbych (yn cynnwys mapiau darluniadol) yn cael eu darparu i'r gwneuthurwyr penderfyniadau wrth adolygu'r penderfyniad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ar 15 Chwefror 2022, ystyriodd y Cabinet adroddiad ar 'Gynllun Penderfyniadau Dirprwyedig Arfaethedig ar gyfer Caffael Tir (Rhydd-Ddaliadol a Lesddaliadol) i Ddibenion Dal a Storio Carbon a Gwelliannau Ecolegol'. Gellir gweld yr adroddiad i'r Cabinet yn Atodiad 1.

4.2 Wedi trafod y mater penderfynodd y Cabinet:

(a) "gymeradwyo cyflwyno cynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a lesddaliadol) i ddibenion dal a

storio carbon a gwelliannau ecolegol fel y cynigir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn,"

(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau."

4.3 Mae gweithdrefn 'galw i mewn' y Cyngor yn diffinio'r broses os yw'r Pwyllgor Craffu'n dymuno arfer ei bwerau statudol i adolygu neu graffu penderfyniadau gweithredol, a gofyn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ailystyried penderfyniad a wnaed, cyn iddo gael ei weithredu.

4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar wefan y Cyngor ar 17 Chwefror 2022. Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, ni roddwyd y penderfyniad ar waith yn syth, er mwyn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau Cabinet i alw'r penderfyniad i mewn i'w archwilio os oeddynt yn teimlo ei fod yn haeddu archwiliad manylach.

4.5 Derbyniwyd negeseuon e-bost 'Hysbysiad o Alw i Mewn' ar gyfer y penderfyniad uchod, gan y nifer ofynnol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, rhwng 23 a 24 Chwefror 2022, roedd hyn o fewn y cyfnod o bum diwrnod gwaith a bennir yn Rheolau Gweithdrefn 'Galw i Mewn' y Cyngor. Mae'r rhesymau dros Alw'r Penderfyniad i Mewn fel a ganlyn:

"…roedd pryderon bod y Cyngor mewn sefyllfa i 'gipio tir' mewn ocsiwn drwy o bosibl gynnig mwy amdano na ffermwyr a pherchnogion tir lleol. [Rydym] yn deall na fyddai gan y Cyngor ddiddordeb mewn prynu'r tir amaethyddol gorau, teimlir fodd bynnag bod angen trafod penderfyniadau gyda'r aelod lleol a'r Grŵp Aelodau Ardal Lleol a deall y wybodaeth a'r angen lleol cyn gwneud cais am barsel o dir."

4.6 Mae gweithdrefn 'galw i mewn' y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwyllgor craffu o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn Hysbysiad o Alw Penderfyniad i Mewn oni bai bod gan y pwyllgor craffu gyfarfod wedi'i drefnu o fewn y cyfnod hwnnw eisoes. Mae'r weithdrefn hefyd yn nodi bod modd ymestyn yr amserlen os bydd y sawl sy'n gwneud penderfyniad a chadeirydd y pwyllgor craffu'n cytuno i'w hymestyn. Gan nad oedd y penderfyniad yn ymofyn gweithredu brys, cytunwyd i ymestyn yr amserlen i alluogi i'r penderfyniad gael ei wneud yn y cyfarfod nesaf a oedd ar gael gan y pwyllgor craffu. O ganlyniad, ystyriwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Craffu

Cymunedau yn y cyfarfod nesaf a oedd ar gael, sef 10 Mawrth 2022. Mae copi o'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad 2 er gwybodaeth.

4.7 Cafwyd trafodaeth fanwl yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y rhesymau dros benderfyniad y Cabinet, y broses arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniadau dirprwyedig at ddibenion prynu tir a dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol, ynghyd â'r trefniadau diogelu fyddai ar waith i liniaru yn erbyn y perygl o'r Awdurdod yn 'cipio tir' mewn ocsiwn a fyddai'n cael effaith niweidiol ar fusnesau a chymunedau lleol. Gellir gwylio'r ddadl lawn ar wefan y Cyngor a gellir dod o hyd i gopi o gofnodion y drafodaeth yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn.

4.8 Ar ddiwedd y drafodaeth, cydnabu'r Pwyllgor, os oedd y Cyngor am gyflawni ei uchelgais mewn perthynas â lleihau carbon, y byddai angen mabwysiadu dull aml ochrog a fyddai'n cynnwys prynu parseli o dir i'w osod yn erbyn defnydd carbon na elli ei osgoi. Er hynny, ni ddylai'r arfer hon ddisodli mesurau lleihau carbon eraill, yn hytrach, fe ddylent ategu atynt. Sicrhawyd y Pwyllgor na fyddai'r Cyngor yn prynu tir ffermio o'r safonau uchaf at y diben hwn ac y byddai trothwy ariannol penodol yn cael ei nodi ar gyfer prynu tir at y diben hwn er mwyn diogelu cyllid y cyhoedd.

4.9 Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn bryderus am oblygiadau anfwriadol posibl y penderfyniadau i brynu tir at y diben hwn ar hyfywedd busnesau amaethyddol lleol a bywoliaethau teuluoedd lleol i'r dyfodol, a allai gael effaith niweidiol ar gynaliadwyedd economaidd hirdymor cymunedau lleol, gan newid natur ac ethos bywyd cymunedol yn ardaloedd gwledig y sir yn llwyr. O ganlyniad, gofynnir i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad, ond cyn gwneud hynny, gofynnir iddo gymryd pryderon ac argymhellion y Pwyllgor i ystyriaeth.

4.10 Nod argymhellion y Pwyllgor yw cryfhau sail penderfyniad y Cabinet drwy sicrhau cefnogaeth cymunedau gwledig ar gyfer y broses, a gwella cyfranogiad aelodau etholedig yn y broses, a sicrhau y bydd digon o adnoddau ar gael i dîm Gwasanaethau Cefn Gwlad y Cyngor fedru cyflawni uchelgeisiau amgylcheddol y Cyngor. Yn sgil y casgliadau a'r argymhellion hyn, mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad 1).

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad 1).

6.2. Gellir bodloni'r costau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu o fewn cyllidebau presennol, a bydd sicrhau unrhyw adnoddau ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cefn Gwlad yn rhan o'r prosesau ar gyfer gosod y gyllideb i'r dyfodol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gweler Adran 7 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad 1).

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r adroddiad yn amlinellu casgliadau'r broses Craffu.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Gweler Adran 9 adroddiad y Cabinet dyddiedig 15 Chwefror 2022 (Atodiad 1).

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Dylai unrhyw benderfyniad i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â phenderfyniad gwreiddiol y Cabinet liniaru'r risg i'r Cyngor o ymateb niweidiol gan gymunedau a/neu sylw negyddol gan y cyfryngau i'r defnydd o gyllid y cyhoedd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adrannau 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac

11.2 Adran 7.4.2(a) o Gyfansoddiad y Cyngor, sy'n datgan "Gall Pwyllgorau Archwilio adolygu a chraffu ar [benderfyniadau'r Cabinet]" ac Adran 7.4.2(d) sy'n datgan

y gall y Pwyllgor “[wneud] argymhellion i'r Cabinet... sy’n deillio o ganlyniadau'r broses archwilio.”